

# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif (Cy.)

## ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol  
Cymru dros Addysg a Hyfforddiant  
(Trosglwyddo Swyddogaethau i  
Gynulliad Cenedlaethol Cymru a  
Diddymu'r Cyngor) 2005

### NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("the National Assembly") y pwerau mewn cysylltiad â strwythur cyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru, sef y cyrff a restrir yn Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

Mae'n darparu y caiff y Cynulliad Cenedlaethol drosglwyddo swyddogaethau rhai o'r cyrff hynny i gorff arall o'r fath, i awdurdod lleol yng Nghymru neu iddo ef ei hun; ac y caiff ddiddymu cyrff o'r fath pan fydd eu swyddogaethau i gyd wedi'u trosglwyddo.

Mae'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo swyddogaethau Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ("y Cyngor") i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o'r Cyngor i'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn gwneud darpariaethau canlyniadol, cysylltiedig, trosiannol ac atodol priodol.

Mae erthygl 2 yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r Cyngor i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae erthygl 3 yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff y Cyngor ac yn cymhwysyo Rheoliadau Ymgymmeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981.

Mae erthygl 4 yn darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau.

Mae erthygl 5 yn darparu ar gyfer parhad o ran arfer swyddogaethau.

Mae erthygl 6 yn darparu bod y Cyngor yn cael ei ddiddymu cyn gynted ag y trosglwyddir y swyddogaethau.

Mae erthyglau 7 ac 8 yn gwneud darpariaethau trosiannol penodol gan gynnwys mewn perthynas â pharatoi cyfrifon ar gyfer y Cyngor gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005 – 2006.

Mae erthygl 9 yn darparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi a gellir cael copiâu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.

## 2005 Rhif (Cy.)

### ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol  
Cymru dros Addysg a Hyfforddiant  
(Trosglwyddo Swyddogaethau i  
Gynulliad Cenedlaethol Cymru a  
Diddymu'r Cyngor) 2005

*Wedi'i wneud*

*2005*

*Yn dod i rym*

*I Ebrill 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â'r pwerau a roddwyd iddo gan adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1) ac Atodlen 4 iddi, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

#### **Enwi, cychwyn a dehongli**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;

ystyr “y Cynulliad Cenedlaethol” (“*the National Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “dyddiad trosglwyddo” (“*transfer date*”) yw 1 Ebrill 2006.

#### **Trosglwyddo Swyddogaethau'r Cyngor i'r Cynulliad Cenedlaethol**

2. Yn ddarostyngedig i erthygl 9, trosglwyddir holl swyddogaethau'r Cyngor i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y dyddiad trosglwyddo.

---

(1) 1998 p.38. Diwygiwyd Atodlen 4 gan Adran 149 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21).

## **Trosglwyddo staff**

**3.** At ddibenion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymheriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981(1)—

- (a) mae'r trosglwyddiad swyddogaethau y mae erthygl 2 yn ei wneud yn effeithiol i'w drin fel pe bai'n drosglwyddiad ymgymeriad;
- (b) mae pob person a oedd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn gyflogedig gan y Cyngor o dan gcontract cyflogaeth, i'w drin fel pe bai'n gyflogedig yn yr ymgymeriad yn union cyn y dyddiad trosglwyddo.

## **Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**4.**—(1) Ar y dyddiad trosglwyddo, trosglwyddir yr holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau yr oedd gan y Cyngor hawl iddynt neu yr oedd y Cyngor yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Bydd dystysgrif a ddyroddir gan y Cynulliad Cenedlaethol bod unrhyw eiddo, hawliau neu rhwymedigaethau wedi'u trosglwyddo gan baragraff (1) yn dystiolaeth ddigamsyniol o'r trosglwyddiad.

(3) Nid yw'r cyfeiriad ym mharagraff (1) at hawliau a rhwymedigaethau yn cynnwys hawliau a rhwymedigaethau o dan gcontract cyflogaeth a drosglwyddir yn rhinwedd erthygl 3.

(4) Mae i baragraff (1) effaith mewn cysylltiad ag eiddo, hawliau a rhwymedigaethau —

- (a) er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) a fyddai fel arall yn rhwystro eu trosglwyddo, neu'n ei gosbi, neu'n cyfyngu ar eu trosglwyddo ac eithrio drwy'r gorchymyn hwn;
- (b) heb fod unrhyw offeryn neu ffurfioldeb arall yn ofynnol.

## **Darpariaeth ar gyfer parhad o ran arfer swyddogaethau**

**5.** I'r graddau y mae'n ofynnol ar gyfer parhau ei effaith ar ac ar ôl y dyddiad trosglwyddo, rhaid i unrhyw beth a wnaed gan y Cyngor neu mewn perthynas ag ef ac sy'n cael effaith yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, gael effaith fel pe bai wedi'i wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol neu mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol.

---

(1) O.S. 1981/1794: diwygiwyd gan O.S. 1987/442.

## **Diddymu'r Cyngor**

**6.** Ar y dyddiad trosglwyddo mae'r Cyngor yn peidio â bod.

## **Darpariaethau Trosiannol**

**7.—(1)** Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan y Cyngor neu mewn perthynas ag ef cyn y dyddiad trosglwyddo.

(2) Caniateir i'r Cynulliad Cenedlaethol barhau, neu caniateir parhau, mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol, ag unrhyw beth (gan gynnwys achosion cyfreithiol) sydd yn y broses o gael ei wneud gan y Cyngor neu mewn perthynas ag ef cyn y dyddiad trosglwyddo.

(3) Ar neu ar ôl y dyddiad trosglwyddo, i'r graddau y bo'n angenrheidiol neu'n briodol, mae cyfeiriadau at y Cyngor, mewn unrhyw offerynnau, contractau, neu achosion cyfreithiol, i'w trin fel pe baent yn gyfeiriadau at y Cynulliad Cenedlaethol.

## **Cyfrifon**

**8.—(1)** Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol —

- (a) paratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer y cyfnod sy'n cychwyn ar ddyddiad y datganiad diwethaf o gyfrifon a baratowyd gan y Cyngor ac sy'n gorffen ar y dyddiad trosglwyddo;
- (b) anfon copi o'r datganiad at Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn diwedd y cyfnod o 6 mis yn cychwyn ar y dyddiad trosglwyddo.

(2) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru —

- (a) archwilio ac ardystio'r datganiad y mae wedi'i dderbyn o dan yr erthygl hon a llunio adroddiad arno;
- (b) gosod copi o'r adroddiad ar y datganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

## **Diwygiadau canlyniadol i Ddeddfau a deddfwriaeth arall**

**9.—(1)** Diwygir y Deddfau a bennir yn Atodlen 1 yn unol â'r Atodlen honno.

(2) Diwygir yr is-ddeddfwriaeth a bennir yn Atodlen 2 yn unol â'r Atodlen honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

---

(1) 1998 p.38.

# ATODLEN 1

**Erthygl 9(1)**

## Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddfwriaeth Sylfaenol

### **Deddf Blwydd-daliadau 1972 (p.11)**

**1.** Yn Atodlen 1 i Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (mathau o gyflogaeth, etc, y cyfeirir atynt yn adran 1) hepgorer “National Council for Education and Training for Wales.”.

### **Deddf Anghymhwysol Rhag Aelodaeth o Dŷ'r Cyffredin 1975 (p.24)**

**2.** Yn Rhan 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Anghymhwysol Rhag Aelodaeth o Dŷ'r Cyffredin 1975 (swyddi sy'n anghymhwysol rhag aelodaeth) hepgorer “Any member of the National Council for Education and Training for Wales in receipt of remuneration.”.

### **Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 (p.65)**

**3.** Diwygir Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 fel a ganlyn.

**4.** Yn adran 23A (gwahaniaethu gan Gynghorau Cyllido Addysg Bellach ac Addysg Uwch):

- (a) hepgorer “the National Council for Education and Training for Wales”;
- (b) mewnosoder “and for the National Assembly for Wales in carrying out its functions under Part 2 of the Learning and Skills Act 2000” ar ôl “2000”.

**5.** Yn adran 25A (dyletswydd gyffredinol: addysg a hyfforddiant ôl-16 etc.) —

- (a) yn is-adran (1) yn lle “and the National Council for Education and Training for Wales” rhodder “and the National Assembly for Wales”;
- (b) yn is-adran (2) yn lle “or the National Council for Education and Training for Wales” rhodder “or the National Assembly for Wales by virtue of its functions under Part 2 of the Learning and Skills Act 2000”.
- (c) yn lle is-adran (3) rhodder —

“(3) The provisions of section 25 of the Learning and Skills Act 2000 shall be the

only sanction for breach of the general duty in subsection (1) by the Learning and Skills Council for England.”

(4) There shall be no sanction for breach of the general duty in subsection (1) by the National Assembly for Wales.

(5) Subsections (3) and (4) are without prejudice to the enforcement of section 23A under section 66 or otherwise (where the breach is also a contravention of that section).”

#### **Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (p.74)**

**6.** Diwygir Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 fel a ganlyn.

7. Yn adran 18A (Cynghorau Cyllido Addysg Bellach ac Addysg Uwch), hepgorer “the National Council for Education and Training for Wales.”.

8. Yn Atodlen 1A (cyrff a phersonau eraill sy’n ddarostyngedig i ddyletswydd statudol gyffredinol) yn Rhan 2 hepgorer “The National Council for Education and Training for Wales.”

#### **Deddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 (p.40)**

9. Yn adran 1(3)(g) o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 (ffioedd prifysgolion a sefydliadau addysg bellach) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

#### **Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 (p.33)**

10. Yn adran 5(9) o Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 (personau anabl yn gadael addysg arbennig) yn y diffiniad o “the responsible authority” —

- (a) ym mharagraff (c), yn lle “the National Council for Education and Training for Wales” rhodder “the National Assembly for Wales”;
- (b) ar ddiwedd paragraff (c) mewnosoder “or the National Assembly as the case may be”.

#### **Deddf Cyflogaeth 1988 (p.19)**

11. Yn adran 26(1A) o Ddeddf Cyflogaeth 1988 (statws hyfforddeion etc), yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

## **Deddf Diwygio Addysg 1988 (p.40)**

**12.** Yn adran 128(1)(b)(v) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (diddymu corfforaethau addysg uwch) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

## **Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13)**

**13.** Diwygir Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 fel a ganlyn.

**14.** Yn adran 19 (pwerau atodol corfforaeth addysg bellach) —

- (a) yn is-adran (4B) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales in the discharge of its functions under Part 2 of the Learning and Skills Act 2000”;
- (b) yn is-adran (4C) yn lle “concerned” rhodder “or the National Assembly for Wales (as the case may be)”;
- (c) yn is-adran (5) yn lle “appropriate council” rhodder “appropriate body”.

**15.** Yn adran 22 (offerynnau ac erthyglau diweddarach) —

- (a) yn is-adran (1) yn lle “appropriate council” rhodder “appropriate body”;
- (b) yn is-adran (3)(b) yn lle “appropriate council” rhodder “appropriate body”;
- (c) ar ôl is-adran (6) mewnosoder —  
“(7) Nothing in this section requires the National Assembly for Wales to consult itself.”.

**16.** Yn adran 27 (diddymu corfforaethau addysg bellach) —

- (a) yn lle is-adran (3)(a) rhodder —  
“(a) the Learning and Skills Council for England, in the case of a further education corporation in England”;
- (b) yn is-adran (7)(b) yn lle “council” y ddau dro y mae’n digwydd rhodder “body”;
- (c) ar ôl is-adran (7) mewnosoder —  
“(8) nothing in this section requires the National Assembly to consult itself.”

**17.** Yn adran 29(7A)(b) (llywodraethu a rhedeg sefydliadau dynodedig) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

**18.** Yn adran 31(2A)(b) (sefydliadau dynodedig a redir gan gwmniau) yn lle “National Council for

Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

**19.** Yn adran 34 (sicrhau bod eiddo ychwanegol ar gael i’w ddefnyddio) —

- (a) yn is-adran (3)(b) yn lle “appropriate council” rhodder “appropriate body”;
- (b) ar ôl is-adran (6) mewnosoder —  
“(7) Nothing in this section requires the National Assembly to consult itself.”.

**20.** Yn adran 38(2) (taliadau gan gyngor mewn cysylltiad â rhwymedigaeth benthyciad) yn lle “A council” rhodder “The Learning and Skills Council for England”.

**21.** Yn adran 51 (cyhoeddi cynigion) —

- (a) yn is-adran (1) yn lle “A council” rhodder “The Learning and Skills Council for England”;
- (b) yn is-adran (2)(b) yn lle “the Council” rhodder “the Learning and Skills Council for England”;
- (c) yn is-adran (3)(a) yn lle “a council” rhodder “the Learning and Skills Council for England”;
- (ch) yn is-adran (3)(b) yn lle “a council” rhodder “the council”.

**22.** Yn adran 52 (dyletswydd i ddarparu ar gyfer unigolion a enwir) —

- (a) yn is-adran (2) yn lle “A council” rhodder “The Learning and Skills Council for England or the National Assembly for Wales”;
- (b) yn is-adran(3) —
  - (i) yn lle “a council” rhodder “the Learning and Skills Council for England or the National Assembly for Wales”;
  - (ii) yn lle “that council” rhodder “the council or (as the case may be) the National Assembly for Wales”.

**23.** Yn adran 54(1) (dyletswydd i roi gwybodaeth) —

- (a) yn lle “a council” rhodder “the Learning and Skills Act Council for England or the National Assembly for Wales”;
- (b) yn lle “they may require” rhodder “the council or (as the case may be) the National Assembly for Wales may require”;
- (c) yn lle “their functions” rhodder “the functions of the council or (as the case may be) the National Assembly for Wales.”

- 24.** Yn adran 61A (cyfeiriadau at gynghorau) —
- (a) yn y pennawd, yn lle “councils” rhodder “appropriate bodies”;
  - (b) hepgorer is-adran (1);
  - (c) yn is-adran (2) yn lle “council” rhodder “body”;
  - (ch) yn is-adran (2)(b) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”;
  - (d) yn is-adran (2)(c) yn lle “council” y ddau dro y mae'n digwydd rhodder “body”.

- 25.** Yn adran 82 (arfer swyddogaethau ar y cyd) —
- (a) yn is-adrannau (1) a (2) yn lle “councils” rhodder “relevant authorities”;
  - (b) yn is-adran (3)(a) yn lle “council” rhodder “authority”;
  - (c) yn lle is-adran (3)(a) rhodder—

“(a) “relevant authority” means a higher education funding council, the Learning and Skills Council for England, the National Assembly for Wales to the extent that it is discharging its functions under Part 2 of the Learning and Skills Act 2000 or the Scottish Higher Education Funding Council, and”.

- 26.** Yn adran 83 (astudiaethau effeithlonrwydd) —
- (a) yn is-adran (1), yn lle “A learning and skills council” rhodder “The Learning and Skills Council for England, the National Assembly for Wales or a higher education funding council”;
  - (b) yn is-adran (2), yn lle “council” rhodder “, the Learning and Skills Council for England, the National Assembly for Wales or a higher education funding council”.

- 27.** Yn adran 90 (dehongli) —
- (a) hepgorer is-adran (2A);
  - (b) hepgorer is-adran (2B).

- 28.** Yn Atodlen 4 (offerynnau ac erthyglau llywodraethu ar gyfer sefydliadau addysg bellach) ym mharagraff 1A yn lle “the National Council for Education and Training for Wales” rhodder “the National Assembly for Wales”.

#### **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p.38)**

- 29.** Yn adran 6(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (ystyr “public body”) hepgorer paragraff (j).

### **Deddf Treth Ar Werth 1994 (p.23)**

**30.** Yn eitem 5A yng Ngrŵp 6 yn Rhan 2 o Atodlen 9 i Ddeddf Treth Ar Werth 1994 (esemtiau) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

### **Deddf Addysg 1996 (p.56)**

**31.** Diwygir Deddf Addysg 1996 fel a ganlyn.

**32.** Yn adran 13(2) (cyfrifoldeb cyffredinol dros addysg) —

- (a) ym mharagraff (a) hepgorer “or the National Council for Education and Training for Wales, or”;
- (b) ar ôl paragraff (a) mewnosoder —
  - (aa) “the National Assembly for Wales under Part 2 of the Learning and Skills Act 2000, or”.

**33.** Yn adran 509(1B) (darparu cludiant etc.), yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

**34.** Yn adran 509AA(2)(d) (darparu cludiant etc ar gyfer personau oedran chweched dosbarth) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

**35.** Yn adran 509AB(6)(c) (darpariaeth bellach ynghylch datganiadau ar bolisi trfnidiaeth) hepgorer “or the National Council for Education and Training for Wales (in the case of a local education authority in Wales)”.

**36.** Yn adran 509AC(3) (dehongli adrannau 509AA a 509AB) —

- (a) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”;
- (b) yn lle “that Council” rhodder “the Assembly”.

### **Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31)**

**37.** Diwygir Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel a ganlyn.

**38.** Yn adran 19(2)(ca) (pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i orchymyn cau'r ysgol) hepgorer “or the National Council for Education and Training for Wales (if the school is in Wales)”.

**39.** Yn adran 30(3) (hysbysiad gan gorff llywodraethu i gau ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol) yn lle “National Council for Education and

Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

**40.** Yn is-baragraff 5(1)(a) o Atodlen 22 (gwareidiadau tir yn achos ysgolion penodol a gwareidiadau parhaus) ar ôl “adopted” mewnosoder “, confirmed”.

#### **Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)**

**41.** Diwygir Deddf Llywodraeth Cymru 1998 fel a ganlyn.

**42.** Yn adran 118(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (ystyr “Welsh public records”) hepgorer paragraff (ha).

**43.** Yn adran 145B(1) (astudiaethau ar gais cyrff addysgol) yn ail golofn y tabl yn lle “the National Council for Education and Training for Wales” rhodder “the Assembly”.

**44.** Yn Rhan 1 o Atodlen 4 (cyrff cyhoeddus sy’n destun diwygio gan y Cynulliad) hepgorer paragraff 5.

#### **Deddf Safonau Gofal 2000 (p.14)**

**45.** Diwygir Deddf Safonau Gofal 2000 fel a ganlyn.

**46.** Yn Atodlen 2A (personau sy’n destun adolygiad gan Gomisiynydd Plant Cymru o dan adran 72B o’r Ddeddf honno), hepgorer paragraff 4.

**47.** Yn Atodlen 2B (personau y mae eu trefniadau’n ddarostyngedig i adolygiad gan Gomisiynydd Plant Cymru o dan adran 73 o’r Ddeddf honno), hepgorer paragraff 5.

#### **Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21)**

**48.** Diwygir Deddf Dysgu a Medrau 2000 fel a ganlyn.

**49.** Yn lle’r pennawd i Ran 2, rhodder “Further Education and Sixth Form Education: Wales”.

**50.** Hepgorer adran 30 (y Cyngor) a’r croesbennawd sy’n dod yn union o’i blaen.

**51.** Yn adran 31 (addysg a hyfforddiant i bersonau 16 i 19 oed)—

(a) yn is-adran (1) yn lle “Council” rhodder “National Assembly for Wales (the National Assembly)”;

(b) yn is-adran (3) yn lle “Council” bob tro y mae’n digwydd rhodder “National Assembly”;

(c) hepgorer is-adran (3)(e);

(ch) hepgorer is-adran (4).

**52.** Yn adran 32 (addysg a hyfforddiant i bersonau dros 19 oed)—

- (a) yn is-adran (1) yn lle “Council” rhodder “National Assembly”;
- (b) hepgorer is-adran (2);
- (c) yn is-adran (3) yn lle “Council” bob tro y mae’n digwydd rhodder “National Assembly”;
- (ch) hepgorer is-adran 3(e);
- (d) hepgorer is-adran (4).

**53.** Yn adran 33 (hybu addysg a hyfforddiant) yn lle “Council” rhodder “National Assembly”.

**54.** Yn adran 34 (darparu adnoddau ariannol)—

- (a) yn is-adrannau (1) a (3) yn lle “Council” rhodder “National Assembly”;
- (b) yn is-adran (2) yn lle “Council” y ddau dro y mae’n digwydd rhodder “National Assembly”.

**55.** Yn adran 35 (adnoddau ariannol: amodau)—

- (a) yn is-adran (1)—
  - (i) yn lle “Council” rhodder “National Assembly”;
  - (ii) ar ôl “financial resources” mewnosoder “under section 34”; a
- (b) yn is-adran (2)—
  - (i) yn lle “Council” y ddau dro y mae’n digwydd rhodder “National Assembly”;
  - (ii) ar ôl “its functions” mewnosoder “under this Part”;
- (c) yn is-adran (5) yn lle “Council” bob tro y mae’n digwydd rhodder “National Assembly”.

**56.** Yn adran 36(1) (cyllido dosbarthiadau chwech) yn lle “Council” rhodder “National Assembly”.

**57.** Yn adran 37 (asesiad a phrofion moddion) yn is-adrannau (1) i (4) yn lle “Council” rhodder “National Assembly”.

**58.** Yn adran 38 (cyfrifon a threfniadau cymwys)—

- (a) yn is-adran (1) yn lle “Council” rhodder “National Assembly”;
- (b) hepgorer is-adran (2).

**59.** Yn adran 39(1) (addysg bellach: llywodraethwyr) yn lle “Council” rhodder “National Assembly”.

**60.** Yn adran 40 (ymchwil a gwybodaeth) —

- (a) hepgorer is-adrannau (1) i (4);
- (b) yn is-adrannau (5) a (6) yn lle “Council” rhodder “National Assembly”.

**61.** Yn adran 41 (personau ag anawsterau dysgu) —

- (a) yn is-adran (1) yn lle “Council” rhodder “National Assembly”;
- (b) yn is-adrannau (2), (3) a (4) yn lle “Council” y ddau dro y mae’n digwydd rhodder “National Assembly”.

**62.** Hepgorer adrannau 42 i 51 (darpariaethau cyffredinol sy’n ymwneud â'r Cyngor).

**63.** Yn adran 74(1) (rhai termau wedi'u diffinio) hepgorer y diffiniad o “Council”.

**64.** Yn adran 75(1) (cylch gwaith estynedig Prif Arolygydd Cymru) yn lle “Council” y ddau dro y mae’n digwydd rhodder “National Assembly in the discharge of its functions under Part 2”.

**65.** Yn adran 77(5) (arolygiadau) hepgorer paragraff (b).

**66.** Yn adran 83 (arolygiadau ardal) yn isadrannau (3) a (6) yn lle “Council” rhodder “National Assembly.”

**67.** Yn adran 84 (cynlluniau gweithredu yn sgil arolygiadau adran 83) —

- (a) hepgorer is-adran (2);
- (b) yn is-adran (4) hepgorer “the Council or”.

**68.** Hepgorer adran 91 (diddymu Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru).

**69.** Hepgorer adran 93 (trosglwyddiadau: Cymru).

**70.** Yn adran 94 (treth stampiau) —

- (a) yn is-adran (1) hepgorer “or 91”;
- (b) yn is-adran (2) yn lle “,92 or 93” rhodder “or 92”.

**71.** Yn adran 95 (contractau cyflogaeth) —

- (a) yn is-adran (1)(a) hepgorer “or 91”;
- (b) yn is-adran (1)(b) yn lle “,92 or 93” rhodder “or 92”.

**72.** Yn adran 100(2) (cyrff a awdurdodwyd) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

**73.** Yn adran 113A (ailstrwythuro addysg chweched dosbarth) —

- (a) yn is-adran (2) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”;
- (b) ar ôl is-adran (4) mewnosoder —
 

“(4A) Proposals under this section are to be published.”;
- (c) Yn is-adran (5) yn lle “under this section are to be published and” rhodder “under subsection (1) are to be”;
- (ch) ar ôl is-adran (5) mewnosoder —
 

“(5A) In respect of proposals under subsection (2), the relevant authority shall, in accordance with regulations made under subsection (9), determine whether to —

  - (a) confirm them, with or without modification or subject to the occurrence of any event; or
  - (b) withdraw them.”;
- (d) yn is-adran (7) hepgorer “and the National Council for Education and Training for Wales”;
- (dd) yn is-adran (8) yn lle “this section” rhodder “is-adran (1)”;
- (e) yn is-adran (9)(f) yn lle “the proposals” rhodder “proposals under subsection (1)”;
- (f) ar ôl is-adran (9)(f) rhodder—
 

“(g) confirmation of proposals under subsection (2) by the relevant authority”;
- (ff) yn is-adran (11) —
  - (i) yn y diffiniad o “regulations” yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”;
  - (ii) yn y diffiniad o “relevant authority” yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

**74.** Yn adran 125(2) (ymgyngori a chydgysylltu) hepgorer paragraff (b).

**75.** Yn adran 126(3)(f) (sefydliadau addysgol: gwybodaeth a mynediad) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales in the discharge of its functions under Part 2”.

**76.** Yn adran 138(3) (Cymru: darparu gwybodaeth gan gyrrff cyhoeddus), yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”.

**77.** Yn adran 144 (sefydliadau dynodedig: gwaredu tir, &c.) —

- (a) yn is-adran (3) yn lle “council” rhodder “authority”;
- (b) yn is-adran (4) yn lle “council” y ddau dro y mae’n digwydd rhodder “authority”;
- (c) yn is-adran (4)(b) yn lle “by the Secretary of State” rhodder —

“—

- (i) if the land is in England, the Secretary of State;
- (ii) if the land is in Wales, by an arbitrator to be appointed, (the expense of which shall be borne equally by the trustees and the National Assembly for Wales) in default of agreement, by the President of the Chartered Institute of Arbitrators”:

(ch) yn is-adran (9) —

- (i) yn lle “council” rhodder “authority”;
- (ii) ym mharagraff (b) hepgorer ‘National Council for Education and Training for Wales’ a rhodder yn ei le ‘National Assembly for Wales’.

**78.** Yn adran 150(4)(a) (Cymru) ar ôl “134” mewnosoder “, 144”.

**79.** Yn adran 151 (darpariaethau trosiannol) —

- (a) yn is-adran (1)(a) yn lle “Parts 1 and 2” rhodder “Part 1” ac yn lle “contain” rhodder “contains”;
- (b) yn is-adran (1)(b) hepgorer “and the National Council for Education and Training for Wales”.

**80.** Hepgorer Atodlen 4 (Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant).

**81.** Hepgorer Atodlen 5 (pwylgorau (Cymru)).

**82.** —(1) Diwygir Atodlen 7 fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 20 —

- (a) yn is-baragraff (1) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”;
- (b) yn is-baragraff (3) —
  - (i) yn lle “Council” rhodder “National Assembly for Wales”;
  - (ii) hepgorer “, having regard to any guidance issued by the National Assembly for Wales,”.

(3) Ym mharagraff 21 —

(a) hepgorer is-baragraff (1);

(b) yn lle is-baragraff (2) rhodder —

“(2) In the case of a community or foundation special school, the National Assembly for Wales shall send a copy of the published proposals to such persons as may be prescribed.”

(4) Ym mharagraff 28 —

(a) yn is-baragraff (1) yn lle “National Council for Education and Training for Wales” rhodder “National Assembly for Wales”;

(b) yn is-baragraff (3) —

(i) yn lle “Council” rhodder “National Assembly for Wales”;

(ii) hepgorer “, having regard to any guidance issued by the National Assembly for Wales,”.

(5) Ym mharagraff 29 —

(a) hepgorer is-baragraff (1);

(b) yn lle is-baragraff (2) rhodder

“(2) In the case of a community or foundation special school, the National Assembly for Wales shall send a copy of the published proposals to such persons as may be prescribed.”

(6) Yn mharagraff 39(2) hepgorer y diffiniad o “the Council”.

(7) Ym mharagraff 40 —

(a) yn lle “any of the following” rhodder “the National Assembly”;

(b) hepgorer is-baragraffau (a) a (b).

(8) Ym mharagraff 42 —

(a) yn lle is-baragraffau (1) a (2) rhodder —

“(1) After the expiry of the period mentioned in paragraph 41, the National Assembly shall determine whether to —

(a) withdraw the proposals;

(b) confirm them without modification; or

(c) confirm them subject to modifications.

